

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Welsh Local Government Association



CLILC • WLGA

Pennaeth Gwasanaethau Addysg Pecyn Gwybodaeth Recriwtio



Dyddiad Cau: 1 Rhagfyr 2019

Dyddiad y Cyfweiliad: 9 Rhagfyr 2019

Neges gan y Prif Weithredwr, Dr Chris Llewelyn

Cynghorau Cymru yw sylfaeni ein cymunedau. Maent yn darparu gwasanaethau hanfodol bob dydd, o ysgolion, i dai, i ofal cymdeithasol, i gludiant lleol. Maent yn cynnig llais democrataidd lleol i gymunedau amrywiol Cymru. Nhw yw craidd economaidd economi Cymru, gan gyflogi dros 10% o weithlu Cymru a gwario £3.5bn ar nwyddau a gwasanaethau.

Ein nod yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yw hyrwyddo, diogelu, cefnogi a datblygu llywodraeth leol ddemocrataidd a chynrychioli buddiannau awdurdodau lleol yn genedlaethol.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi dathlu ei ben-blwydd yn 20 oed eleni ac mi wnaeth CLILC chwarae rhan allweddol wrth helpu llunio polisi cyhoeddus a chefnogi cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn ystod dwy ddegawd gyntaf datganoli.

Drwy weithio'n agos efo Llywodraeth Cymru, mae CLILC yn cynnig rhyngwyneb rhwng Gweinidogion Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac awdurdodau lleol. Rydym hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a budd-ddeiliaid ehangach i gynrychioli buddiannau llywodraeth leol a hybu democratiaeth leol.

Rydym yn sefydliad trawsbleidiol, dan arweiniad gwleidyddol ac mae arweinwyr cynghorau a chynghorwyr uwch eraill wrth galon ein polisi a'n trefniadau penderfynu. Rydym yn darparu cyngor a chymorth i'n aelodau etholedig ac yn gweithio'n agos gyda Phrif Weithredwyr ac uwch swyddogion ar draws 22 awdurdod lleol Cymru. Mae'r tri Awdurdod Tân ac Achub a'r Parciau Cenedlaethol yn Aelodau Cyswllt o'r WLGA hefyd. Rydym yn cwrdd â Gweinidogion, Aelodau'r Cynulliad ac ASau ac yn ymddangos ym Mhwyllgorau'r Cynulliad a'r Senedd ac yn cysylltu ag uwch weision sifil a budd-ddeiliaid dylanwadol eraill.

Rydym yn sefydliad proffil uchel, dylanwadol ac uchel ein parch. Mae ein dylanwad a'n enw da fodd bynnag yn cuddio'r ffaith ein bod yn dîm bychan o ychydig mwy na 60 o staff, wedi ein lleoli'n bennaf ym Mae Caerdydd.

Mae Addysg yng Nghymru yn mynd trwy gyfnod digynsail o newid deinamig a chyffrous ac mae llywodraeth leol ar flaen y gad yn y trawsnewid hwnnw a bydd yn ganolog i gyflawni agenda ddiwygio Llywodraeth Cymru.

Rydym felly'n edrych am unigolyn talentog a brwdfrydig i 'daro'r ddaear yn rhedeg' a helpu CLILC i siapio'r newid hwn.

Mae prif ddiwygiadau addysg yn cynnwys newidiadau i Anghenion Dysgu Ychwanegol; cwricwlwm ac asesiad, darpariaeth a sgiliau ôl-16, Cymraeg mewn addysg; gwaith ieuenctid ac ymrwymiad, datganoli cyflogau ac amodau athrawon a chynnydd Band B yn Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif.

Mae'r CLILC yn ganolog i'r holl ddatblygiadau hyn fel y corff sy'n cynrychioli'r 22 cyngor yng Nghymru. Wrth gynrychioli a hyrwyddo diddordebau'r llywodraeth leol mewn addysg, mae'r CLILC yn canolbwyntio'n barhaus ar wella canlyniadau a chodi safonau i'r holl ddysgwyr. CLILC hefyd yw Sefydliad y Cyflogwyr yng Nghymru gan gymryd yr awenau ar gyflogau ac amodau athrawon ar ran y llywodraeth leol.

Os ydych chi'n awyddus i weithio mewn amgylchedd gwleidyddol cyffrous sy'n symud yn gyflym wrth galon llywodraethiant Cymru ac yn credu y gallwch chi wneud gwahaniaeth, cysylltwch â ni.

Pennaeth Gwasanaethau Addysg

| | |
|----------------|--------------------------------------|
| Cyflog: | Gradd 7 (SCP 52 -55) £57769 – £69092 |
| Cyfnod: | Parhaol/Llawn Amser |
| Yn atebol i'r: | Prif Weithredwr |
| Lleoliad: | Tŷ'r Llywodraeth Leol, Caerdydd |

Ynglŷn â'r Swydd

Dyma swydd hynod heriol a gwobrwyol gyda briff eang sydd yn mynd y tu hwnt i addysg yr ysgol. Datblygwyd y rôl yn dilyn ailstrwythuro'r rheoli mewnol ar ôl penodi'r cyn Gyfarwyddwr Addysg, Dysgu Gydol Oes, Diwylliant a Hamdden fel Prif Weithredwr. Bydd y deiliad swydd yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr a fydd yn cynnal trosolwg ac arweinyddiaeth strategol ar ddysgu gydol oes a materion polisi addysg.

Bydd y deiliad swydd yn rheoli'r Tîm Addysg, Dysgu Gydol Oes, Hamdden a Chwaraeon o ddydd i ddydd gan gynnwys y cyfrifoldeb o reoli cyfres o grantiau addysg, sydd o bosib yn golygu miliynau o bunnau. Dyma swydd uwch reoli a fydd yn sefydlu rhan o Dîm Uwch Rheoli y sefydliad.

Bydd y rôl yn cynnwys gwybodaeth dda a dealltwriaeth fanwl o ddarparu addysg a dysgu gydol oes yng Nghymru a rôl y llywodraeth leol, aelodau etholedig a darpariaeth gwasanaeth ehangach.

Y deiliad swydd fydd y prif bwynt cyswllt ar lefel uwch i'r CLILC ar y meysydd polisi a ddaw o fewn cylch gwaith y swydd; gan gynnwys, diwygio cwricwlwm, diwygio ADY; blynyddoedd cynnar a gofal plant; cyllid addysg, Ysgolion yr 21ain ganrif, darpariaeth ôl-16, cymwysterau ac asesiad, perfformiad, gwelliant ac addysgeg, gwaith ieuenctid ac ymrwymiad, lles a gwasanaethau eraill yn ymwneud â'r llywodraeth leol gan gynnwys y celfyddydau, diwylliant a chwaraeon.

Dyletswyddau a Chyfrifoldebau:

- Bod yn gyfrifol am reoli'r ystod eang o feysydd polisi o ddydd i ddydd sydd i'w cael o fewn cylch gwaith y swydd.
- Helpu Siaradwyr CLILC a'r Prif Weithredwr i osod cyfeiriad strategol ar gyfer meysydd o gyfrifoldeb o fewn cylch gwaith y swydd.
- Cyfathrebu a chydweithio'n agos gyda phrif Siaradwyr CLILC, Aelodau Cabinet perthnasol, Cymdeithas Gyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) a rhwydweithiau proffesiynol eraill wrth benderfynu safbwyntiau a'u safiad ar gynigion polisi.
- Cyfrannu at ddatblygu polisiau CLILC mewn perthynas â meysydd o fewn cylch gwaith y swydd.

- Datblygu a chynnal a chadw perthnasau gwaith effeithiol gydag Arweinwyr, Aelodau Cabinet ac Uwch Swyddogion a chyrrff partneriaid yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Aelodau'r Cynulliad ac/neu Pwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol, Cyrff Dysgu, Undebau ac Estyn.
- Cynrychioli'r CLILC wrth gyflwyno tystiolaeth yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrrff eraill ac, hefyd i gynrychioli'r CLILC ar nifer o grwpiau gwaith a chyfarfodydd o gyrff allanol.
- Hyrwyddo ac amddiffyn rôl y llywodraeth leol wrth ddarparu addysg yng Nghymru, annog gwelliant parhaus a chyflawni arfer gorau.
- Gwneud yn siŵr fod cyfarfodydd rheolaidd ac ad hoc yn cael eu cynnal i Aelodau Cabinet Addysg.
- Paratoi cyngor a chyfarwyddiadau, adroddiadau ac ymatebion i'r ymgynghoriad, cymryd rhan ac ymgorffori safbwyntiau'r llywodraeth leol.
- Sicrhau cyfathrebu effeithiol gyda sefydlwyr barn a rhanddeiliaid perthnasol gan gynnwys Aelodau'r Cynulliad, partïon gwleidyddol, partneriaid a'r cyfryngau.
- Darparu cymorth rheoli a goruchwyliaeth i aelodau staff unigol yn y Tîm, gan sicrhau cyflawniad positif o ganlyniadau mewn perthynas ag amcanion gwaith.
- Rheoli swyddogion y Sefydliad lle mae eu swyddi wedi'u hariannu gan raglenni grant yn berthnasol i addysg, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys Bwyd mewn Ysgolion, Plant y Lluoedd Arfog mewn Addysg a Chynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff.
- Cynnal cysylltiadau gyda'r Gymdeithas Llywodraeth Leol a chyrrff llywodraeth leol eraill ar draws y DU i gadw ochr yn ochr â datblygiadau yn ymwneud ag addysg mewn llefydd eraill yn y DU ac yn rhyngwladol.
- Cyflawni dyletswyddau eraill sydd yn gymesur â'r swydd uwch reoli hon a sicrhau hyblygrwydd llwyr wrth gyflawni'r swydd.

Manylion am yr Unigolyn

Hanfodol

- Gallu gweithio'n effeithiol ar lefel uwch mewn amgylchedd wleidyddol sensitif gyda phrofiad o weithio gyda gwleidyddion neu aelodau'r bwrdd mewn amgylchedd polisi cyhoeddus.
- Sgiliau cyfathrebu a thrafod ardderchog, gyda'r gallu i gyfathrebu yn effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig ar gyfer amrediad eang o gynulleidfaoedd.
- Gwybodaeth sylweddol o'r agenda addysg yng Nghymru, y cyd-destun deddfwriaethol a datblygiadau a gwybodaeth sy'n newydd ac yn dod i'r wyneb a dealltwriaeth o bolisi cyfoes yn y celfyddydau, diwylliant a chwaraeon.
- Profiad o arwain a rheoli unigolion a thimau.
- Profiad o ddylanwadu ac/neu ddatblygu polisiâu yn ymwneud ag addysg.
- Sgiliau rheoli prosiect da, gyda'r gallu i reoli amcanion y tîm yn llwyddiannus.
- Sgiliau rheolaeth ariannol da a phrofiad o reoli atebol a rheoli cyllidebau.
- Gallu sefydlu perthnasau gwaith effeithiol, yn fewnol ac yn allanol a sgiliau gweithio mewn partneriaeth dda.
- Gallu hunan ysgogi a rheoli llwyth gwaith gyda'r gallu i gydbwysu galw gwrthdrawiadol mewn amgylchedd o bwysau mawr a chyflawni dyddiadau cau.

- Ymrwymiad i weithredu'r llywodraeth leol, democratiaeth leol, gwasanaethau addysg leol yng Nghymru yn effeithiol ac effeithlon a hyrwyddo amrywiaeth a chyfle cyfartal.
 - Addysg hyd at lefel gradd neu gymhwyster proffesiynol cyfatebol gydag ymrwymiad i ddatblygiad personol a phroffesiynol parhaus.
 - Ymrwymiad i safonau uchel o ymarfer, uniondeb personol a bod yn broffesiynol yn ennill hyder yr aelodau etholedig a'r uwch swyddogion.
 - Sgiliau TG gwych.
 - Parodrwydd a'r gallu i deithio ledled Cymru a rhannau eraill o'r DU fel bo'r angen.
 - Yn fodlon bod yn hyblyg, gan gynnwys gweithio gyda'r nos ac ar benwythnosau pan fo angen.
-
- Mae CLILC yn cefnogi dwyieithrwydd ac mae'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn fanteisiol.
-

Ynglŷn â CLILC

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn cynrychioli lles llywodraeth leol ac yn hybu democratiaeth leol yng Nghymru.

Ein nod yw **hyrwyddo, diogelu, cefnogi a datblygu llywodraeth leol ddemocrataidd** a buddiannau awdurdodau lleol yng Nghymru.

Rydym yn sefydliad trawsbleidiol dan arweiniad gwleidyddol sy'n ceisio rhoi llais cryf i lywodraeth leol ar lefel genedlaethol. Mae CLILC yn sefydliad aelodau sy'n cynrychioli'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, mae'r 3 awdurdod tân ac achub a'r 3 awdurdod parc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

Rydym yn credu fod gwasanaethau'n cael eu darparu orau o fewn fframwaith democrataidd o atebolrwydd lleol ac y dylai pobl sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus gael cymaint o lais â phosibl yn y ffordd maent yn cael eu trefnu, rheoli a'u hariannu. Ystyrir mai Llywodraeth Leol yw'r haen o lywodraeth agosaf at ddefnyddwyr gwasanaethau ac sy'n gallu ymateb orau i'w hanghenion. Rydym yn cefnogi rôl Llywodraeth Cymru o ran gosod y strategaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn genedlaethol ond credwn mai mater i lywodraeth leol yw dehongli strategaeth i ddarparu gwasanaethau yn seiliedig ar amgylchiadau lleol a blaenoriaethau lleol.

Mae llawer o'n gwaith yn canolbwyntio ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru a budd-ddeiliaid a phartneriaid cenedlaethol eraill. Rydym hefyd yn cysylltu â Swyddfa Cymru a Llywodraeth y DU ac yn gweithio'n agos gyda'r LGA yn Llundain i geisio dylanwadu ar bolisiâu a deddfwriaeth heb eu datganoli ac, yn benodol, ymateb i ddatblygiadau sy'n ymwneud â Brexit.

Mae ein gwaith yn cynnwys ymgysylltu â Gweinidogion, Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol, a sefydliadau cenedlaethol a llywodraethol eraill. Rydym yn hyrwyddo rôl bwysig llywodraeth leol i Aelodau'r Cynulliad ac yn ceisio gwella a diogelu enw da cynghorau a sicrhau newid cadarnhaol i deddfwriaeth. Felly, mae gwaith lobïo CLILC yn helaeth.

Ein Gwerthoedd

Wrth weithio tuag at ei brif ddibenion, rydym yn ceisio bod yn:

- **Uchelgeisiol** yn ein disgwyliadau ac yn ein gweledigaeth ar gyfer democratiaeth leol a gwasanaethau lleol
- **Atebol** i'n haelodau ac awdurdodau sy'n aelodau
- **Rhagweithiol** wrth amddiffyn a hyrwyddo democratiaeth leol, wrth i ni ddatblygu polisi ac ymgysylltu ag aelodau
- **Derbyngar** drwy wrando ar ac ystyried barn amrywiol ein haelodau, partneriaid a'n budd-ddeiliaid
- **Ymatebol** drwy ein gwasanaethau a chymorth i'n haelodau ac awdurdodau sy'n aelodau
- **Cydweithredol** yn ein dull tuag at lywodraethu a gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru a budd-ddeiliaid eraill

Rydym hefyd yn gweithio tuag at gynnal a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol; gan gynnwys hyrwyddo amrywiaeth mewn democratiaeth a chynorthwyo cynghorwyr yn eu swyddi fel cynrychiolwyr lleol wedi eu hethol yn ddemocrataidd.

Rydym wedi ymrwmo i gydraddoldeb a thegwch ac er nad ydym yn gorff statudol, rydym yn gweithredu yn ôl ysbryd deddfwriaeth fel Deddf Cydraddoldeb, Deddf Rhyddid Gwybodaeth a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Ein Nodau a'n Blaenoriaethau

Sail ein blaenoriaethau yw ein hamcanion craidd o sicrhau:

- **Diwygio, gwelliant parhaus ac ymrwymiad i bartneriaeth** – rydym yn credu mewn diwygio llywodraeth leol ac yn ceisio gwelliant parhaus fel proses ar gyfer darparu gwell canlyniadau a gwasanaethau ar gyfer pobl Cymru, a sicrhau fod adnoddau'n cael eu defnyddio mor effeithiol ac effeithlon â phosibl.
- **Cyllido teg a hyblyg** – mae angen rhagor o ymreolaeth gyllidol a hyblygrwydd ar gynghorau i ymateb i anghenion a blaenoriaethau lleol. Dylid trosglwyddo grantiau i'r setliad, a dylai Llywodraeth Cymru, ar ôl cyfnod y cytunir arno, gostio a chyllido unrhyw gynlluniau a/neu ddeddfwriaeth cenedlaethol newydd yn llawn a dylent ymrwmo i ddatganiadau ariannol am sawl blwyddyn fel y gall cynghorau gynllunio yn fwy effeithiol;
- **Ymrwymiad i'r egwyddor o Sybsidiaredd** - dylai Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol ymrwmo i Siarter Ewrop dros Hunanlywodraeth Lleol a'r egwyddor o sybsidiaredd, lle mae'r rhagdybiaeth yw bod grym yn cael ei drosglwyddo i'r lefel llywodraeth agosaf at y bobl. Mae gan Lywodraeth Cymru swyddogaeth strategol genedlaethol glir, ond mae cynghorau'n dymuno gweld momentwm y tu ôl i ddatganoli grymoedd y tu hwnt i Fae Caerdydd i lywodraeth leol ac i gymunedau lleol.

Byddwn hefyd yn:

- **Hyrwyddo swyddogaeth ac amlygrwydd cynghorwyr ac arweinwyr cynghorau**, gan bwysleisio eu mandad democrataidd cyfartal gyda gwleidyddion cenedlaethol.
 - **Sicrhau cymaint â phosibl o ddisgresiwn lleol mewn deddfwriaeth neu ganllawiau statudol** lle mae gan gynghorau a rhanbarthau hyblygrwydd wrth bennu blaenoriaethau, gwasanaethau a threfniadau llywodraethu rhanbarthol.
 - **Hyrwyddo gwelliant wedi ei arwain gan y sector**, gyda phwyslais ar ddigidol ac arloesi, cefnogi awdurdodau i rannu arferion gorau, datblygu sgiliau'r gweithlu a datblygu rhaglen adolygiad gan gymheiriaid corfforaethol.
 - **Annog democratiaeth leol fywiog; hyrwyddo rhagor o amrywiaeth** a gwell ymgysylltu democrataidd a chefnogi datblygiad a hyfforddiant cynghorwyr.
 - **Cefnogi awdurdodau i reoli eu gweithlu'n effeithiol** drwy ein swydd fel Sefydliad Cyflogwyr.
-

Buddiannau: Gweithio i CLILC

Mae CLIL yn le cyffrous i weithio ynddo.

Mae ein swyddfeydd, sydd wedi eu lleoli yng Nglanfa'r Iwerydd, Bae Caerdydd yn hygyrch ac mewn lleoliad cyfleus ymhlith hen rwydwaith gamlesi Bae Caerdydd, o fewn pellter cerdded i Fae Caerdydd a Chanol Dinas Caerdydd; mae Caerdydd yn un o ddinasoedd mwyaf amrywiol, ffyniannus a bywiog y DU.

Ein nod yw cynnig amgylchedd gwaith cyfeillgar, cefnogol a hyblyg ac mae hawl gan staff i ystod o fuddion gan gynnwys:

- Codiadau cyflog cynyddrannol a chyfraniadau i'r cynllun pensiwn llywodraeth leol
- 26 diwrnod o wyliau, yn codi i 29 ar ôl 3 blynedd ac yna'n codi i 32 ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth, ac 8 diwrnod o wyliau'r banc
- Polisi gweithio ystwyth sydd yn cynnwys gweithio'n hyblyg a'r opsiynau i weithio gartref.
- Cynllun Beicio i'r Gwaith, cyfleusterau benthyciad teithio a maes parcio am ddim i staff
- Ystod o bolisiau cefnogol, gan gynnwys egwyliau gyrfa, rhannu swydd, cynllun prynu gwyliau a threfniadau gwyliau eraill.
- Absenoldebau mamolaeth, mabwysiadu, tadolaeth ac absenoldeb rhiant a rennir hael
- Swyddfa wedi'i lleoli'n ganolog yng nghalon un o ddinasoedd mwyaf bywiog y DU

Telerau Cyflogaeth

Mae CLILC yn cyflogi ei gweithwyr yn ôl amodau'r Cydgyngor Gwladol dros Wasanaethau Llywodraeth Leol a'r amryw gytundebau lleol sydd wedi'u newid. Dyma'r prif ofynion:

Cyflog:

Byddwn ni'n talu'ch cyflog fesul mis calendr trwy gredyd banc ar y 15^{fed} diwrnod o bob mis neu oddeutu hynny.

Oriau gwaith:

36 o oriau yw'r wythnos safonol. Mae'r swyddfa ar agor o 9.00 tan 5.00 rhwng dydd Llun a dydd Gwener, er y gallai fod rhaid amrywio hynny yn ôl anghenion y gwaith.

Amser hyblyg:

Mae CLILC yn cynnig trefn amser hyblyg i bob swydd o dan lefel pennaeth polisïau.

Treuliau teithio a chynnal:

Un o'r amodau penodi yw bod ein staff yn fodlon gweithio unrhyw le yng Nghymru, gweddill y Deyrnas Gyfunol neu Ewrop ar adegau. Byddwn ni'n talu treuliau teithio a chynnal yn ôl cynllun CLILC pan fo rhywun yn gweithio y tu allan i'w ganolfan.

Gwyliau:

Yr hawl gwyliau am flwyddyn lawn (mae'r flwyddyn wyliau yn weithredol o 1 Ebrill tan 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol) fydd 26 diwrnod i ddechrau, ynghyd â gwyliau statudol. Gallai gweithwyr llywodraeth leol presennol dderbyn gwyliau ychwanegol yn seiliedig ar wasanaeth parhaus i lywodraeth leol

Pensiwn:

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei dderbyn yn awtomatig i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Cynllun cyfrannol yw hwn sydd wedi nodi buddion ar gyfer gweithwyr. <https://mpfmembers.org.uk/content/members-currently-contributing-igps>

Rhybudd: Os ydych chi'n bwriadu gadael eich swydd, rhaid rhoi gwybod fis calendr ymlaen llaw. Caiff y cyfnod ddechrau unrhyw ddiwrnod o'r mis. Rhaid i staff uwch roi rhybudd o 3 mis. Yn yr un modd, rhaid i CLILC roi rhybudd i chi fis calendr ymlaen llaw neu roi rhybudd yn ôl y cyfnod statudol cyfredol, faint bynnag sy'n hiraf.

Telerau Secondiad (os yw'n berthnasol)

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn parhau'n un o weithwyr ei gyflogwr presennol a fydd yn talu ei gyflog o hyd gan adennill yr arian hwnnw o CLILC. Ni fydd amodau na thelerau'r gwaith yn newid. Bydd y Gymdeithas yn ad-dalu costau teithio ar gyfer busnes a threuliau a ysgwyddir ar secondiad. Dylai pob ymgeisydd ddarllen polisi secondiadau ei sefydliad, a chael caniatâd ei reolwr cyn cyflwyno cais.

Swyddi o dan gyfyngiadau gwleidyddol CLILC:

Ni fydd CLILC yn penodi staff neu weithwyr mewn unrhyw rinwedd, unrhyw Gynghorydd sy'n Aelod ar hyn o bryd (yn cynnwys aelod cyfetholedig) o awdurdod lleol, neu unrhyw gorff arall sy'n aelod o CLILC e.e. Awdurdod y Parc Cenedlaethol neu a oedd wedi bod yn Aelod yn y 12 mis blaenorol (a.116 Deddf Llywodraeth Leol (DLIL) 1972).

Ystyrir y swyddi canlynol yn rhai â chyfyngiadau gwleidyddol (yn unol â'r swyddi awdurdodau lleol hynny a nodwyd yn Adran 2(1) o Ddeddf 1989¹:

- Pob aelod o'r Uwch Dîm Rheoli
- Pob swyddog a delir yn uwch na Phwynt 30 ar y Golofn Gyflog
- Swyddogion eraill sy'n rhoi cyngor rheolaidd i awdurdodau lleol
- Unrhyw swyddog gyda rôl sy'n cynnwys siarad ar ran CLILC i'r cyfryngau.

Mae WLGA yn cyflogi ei staff yn ôl egwyddorion cyfleoedd cyfartal.

¹ Rhan I o Ddeddf Llywodraeth Lleol a Thai 1989 a Rheoliadau Llywodraeth Leol (Swyddi dan Gyfyngiadau Gwleidyddol) (Cymru) 2008

Gwnewch gais Rŵan!

I gael sgwrs gychwynol ynglŷn â'r swydd a'r sefydliad, cysylltwch â Chris Llewelyn, Prif Weithredwr ar 029 20468610.

I wneud cais, anfonwch lythyr eglurhaol gyda ffurflen gais wedi ei llenwi erbyn y dyddiad cau 1 Rhagfyr 2019 i:

Rheolwr Adnoddau Dynol
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Tŷ Llywodraeth Leol
Rhodfa Drake
Caerdydd CF10 4LG
e-bost recruitment@wlga.gov.uk

Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i gyfweiliad ar 9 Rhagfyr 2019 yn Nhŷ Llywodraeth Leol, Caerdydd. Efallai y bydd gofyn i ymgeiswyr ar y rhestr fer gwblhau tasg cyn bod yn bresennol yn y cyfarfod, yn ogystal â thasgau cyn cyfweiliad ar y diwrnod, wedi'i ddilyn gan gyfweiliad gyda phanel dethol.